

Adroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021

Mawrth 2021

Trosolwg

Dyma'r ail set o reoliadau newid yn yr hinsawdd a wnaed o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yr ydym wedi cyflwyno adroddiad arnynt. Yn ein hadroddiad ar y set gyntaf o reoliadau, sef Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018, mynegwyd siom nad oedd y targed a bennwyd, sef gostyngiad o 80% erbyn 2050, yn ddigon uchelgeisiol i gyflawni amcanion Cytundeb Paris. Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021, yn unioni hyn, gan gyflwyno targed net i ostwng allyriadau i sero erbyn 2050.

Mae'r targed sero net, ynghyd â'r newidiadau eraill a nodir yn Rheoliadau 2021, yn rhoi argymhellion diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar waith. Rydym yn cymeradwyo'r argymhellion hynny, ac felly, yn cefnogi Rheoliadau 2021.

Mae Rheoliadau 2021 yn rhan o'r fframwaith statudol ar gyfer lleihau allyriadau yng Nghymru sydd wedi'i gynnwys yn Rhan 2 o'r Ddeddf. Mae ein gwaith yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd yn ystod y Pumed Senedd, gan gynnwys craffu ar Reoliadau 2018 a 2021, wedi amlygu gwendidau allweddol yn y fframwaith presennol. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y modd y gellir mynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Fodd bynnag, credwn fod angen ymgymryd â gwaith mwy sylweddol i adolygu Rhan 2 o'r Ddeddf, gyda'r bwriad o gyflwyno gweithdrefnau craffu mwy trylwyr, gwella tryloywder a chryfhau trefniadau atebolrwydd. Rydym yn disgwyl cynnwys hyn yn ein hadroddiad gwaddol er mwyn i'r pwyllgor a fydd yn ein holynu ei drafod yn y Chweched Senedd.



1. Cyflwyniad

1. Ar 9 Chwefror, gosododd Llywodraeth Cymru y rheoliadau a ganlyn (y cyfeirir atynt ar y cyd fel 'Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021') gerbron y Senedd.

- [Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016 \(Diwygio Targed Allyriadau 2050\) 2021;](#)
- [Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd \(Targedau Allyriadau Interim\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2021;](#)
- [Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd \(Cyllidebau Carbon\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2021;](#) a
- [Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd \(Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru\) \(Cymru\) 2021.](#)

2. I grynhoi, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r targed presennol ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2050, targedau interim 2030 a 2040, a Chyllideb Carbon 2 (2021-25). Maent hefyd yn pennu Cyllideb Carbon 3 (2026-30) a'r terfyn ar ddefnyddio credydau gwrthbwysu ar gyfer Cyllideb Carbon 2.

Ein dull o weithredu

3. Ar 10 Chwefror, ysgrifennodd y Pwyllgor at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog) i'w hysbysu y byddai, yn unol â Rheol Sefydlog 27.8, yn cyflwyno adroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 ('Rheoliadau 2021').

4. Ar 25 Chwefror, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Cyfeillion y Ddaear Cymru a WWF Cymru am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y Pumed Senedd ym maes newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys Rheoliadau 2021.

2. Cefndir

5. Mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys gofyniad i sicrhau bod allyriadau net ar gyfer 2050 o leiaf 80 y cant islaw'r waelodlin.¹

6. Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru i sicrhau y caiff targed 2050 ei gyrraedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pennu targedau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040;
- Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o bum mlynedd, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu uchafswm ar gyfer allyriadau net Cymru (a ddisgrifir fel cyllideb garbon); a
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried cytundebau rhyngwladol i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yn nymheredd cyfartalog y byd.

Rôl Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ('CCC')

7. Mae'r CCC yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch eu rhwymedigaethau ym maes y newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Ddeddf. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried cyngor y CCC wrth wneud rheoliadau newid yn yr hinsawdd o dan y Ddeddf.

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018

8. O dan Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018,² (a elwir yn 'Rheoliadau 2018' o hyn ymlaen) sefydlwyd system o dargedau allyriadau interim a chyllidebu carbon i bennu trywydd ar gyfer lleihau allyriadau a chyrraedd targed

¹ Diffinnir y llinell sylfaen yn Adran 38 o'r Ddeddf fel "swm cyfanredol allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr ar gyfer y blynyddoedd gwaelodlin". Y flwyddyn waelodlin ar gyfer pob nwy tŷ gwydr yw— (a) carbon deuocsid: 1990; (b) metan: 1990; (c) ocsid nitraidd: 1990; (d) hydrofflorocarbonau: 1995; (e) erfflorocarbonau: 1995; (f) sylffwr hecsafflorid: 1995; (g) triffuorid nitrogen: 1995.

² Term cyfunol ar gyfer y canlynol yw 'Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018'; Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018; Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018; (Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Rhyngwladol a Morgludiant Rhyngwladol) (Cymru) 2018, Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018

2050. Maent hefyd yn nodi sut y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio credydau carbon rhyngwladol a phennu'r terfyn credyd ("gwrthbwysu") ar gyfer Cyllideb Garbon 1 (Cyllideb Garbon 1, 2016-20). Yn olaf, darparwyd ar gyfer ymdrin ag allyriadau sy'n deillio o forgludiant rhyngwladol a hedfan mewnol wrth gyfrifo allyriadau.

9. Mae'r Ddeddf yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau i newid targed allyriadau 2050, targed allyriadau dros dro neu gyllideb garbon oni bai bod o leiaf un o'r gofynion a ganlyn yn cael ei fodloni:

- Maent wedi'u darbwylo ei bod yn briodol gwneud y newid oherwydd datblygiadau sylweddol mewn gwybodaeth wyddonol ym maes newid yn yr hinsawdd, neu gyfraith neu bolisi'r UE neu gyfraith neu bolisi rhyngwladol sy'n ymwneud â newid hinsawdd;
- Mae'r CCC wedi argymhell y newid; ac
- Mae'r newid yn ymwneud â darpariaeth a wnaed o dan adran 35(1) neu 37(2).³

Datblygiadau ers Rheoliadau 2018

10. Ym mis Mai 2019, yn dilyn cais gan Lywodraethau'r DU i ailasesu targed allyriadau hirdymor y DU, cyhoeddodd y CCC **Net Zero – the UK's contribution to global warming**. Roedd yn argymhell y dylai'r DU gyflwyno targed i sicrhau bod allyriadau'n gostwng i sero erbyn 2050. I Gymru, roedd yn argymhell gostyngiad o 95%.

11. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd ac, yn unol ag argymhelliad y CCC, ymrwymodd i sicrhau **gostyngiad o 95 o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050**, a'i huchelgais oedd eu gostwng i sero erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i ddiwygio'r targed presennol ar gyfer 2050, y targedau interim a'r cyllidebau carbon yn ôl yr angen.

12. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y CCC **Progress Report: Reducing Emissions in Wales**. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd targedau presennol Cymru gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael am

³ Mae Adran 35(1) yn ymwneud ag allyriadau sy'n deillio o hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol. Mae Adran 37(2) yn ymwneud â'r diffiniad o nwy tŷ gwydr.

allyriadau (ar gyfer 2018), gan ganolbwyntio ar dueddiadau allyriadau drwy gydol cyfnod cyllideb garbon gyntaf Cymru rhwng 2016 a 2020.

13. Yn ôl yr adroddiad, mae allyriadau yng Nghymru wedi gostwng 31% ers 1990. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf yng nghyfnod cyllideb garbon gyntaf Cymru (rhwng 2016 a 2018), gwelwyd gostyngiad o 20% mewn allyriadau, ac roedd hynny i'w briodoli bron yn gyfan gwbl i'r gostyngiadau yn y sector pŵer. Mae'r adroddiad yn dweud bod Cymru, ar hyn o bryd, ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged ar gyfer 2020 a'i chyllideb garbon gyntaf ar yr amod nad yw'r allyriadau'n cynyddu yn 2019 a 2020.

14. Mae'r adroddiad yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwelliannau polisi sylweddol ers 2017. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at y ffaith nad oes strategaeth gydlynol ar gyfer yr economi gyfan i gyrraedd targedau 2050, a hynny ar lefel Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU a, chan hynny, nid yw Cymru, ar hyn o bryd, ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 80%.

15. Ochr yn ochr â'i Adroddiad Cynnydd, cyhoeddodd y CCC ei adroddiad cynghori, sef [The path to a Net Zero Wales](#). Mae'n gwneud nifer o argymhellion ynghylch targedau hinsawdd Cymru, gan gynnwys gosod targed i ostwng allyriadau i sero-net erbyn 2050, a thynhau cyllidebau carbon a thargedau interim yn y dyfodol. Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 yn rhoi'r argymhellion hyn ar waith.

3. Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021

Targed sero-net i Gymru

16. Yn ei Adroddiad Cyngori ym mis Rhagfyr 2020, mae'r CCC yn argymhell bod Cymru yn deddfu i gyrraedd targed sero net cyn gynted â phosibl. Yn ôl y CCC, mae gwaith dadansoddi'n dangos bod targed sero net yn amlwg yn ymarferol, cyhyd ag y bod polisiau effeithiol yn cael eu cyflwyno ar draws yr economi ar unwaith.

17. Mae Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 yn codi'r targed presennol ar gyfer 2050, sef 80% islaw'r waelodlin, i 100% o leiaf ('sero net'). Mae hyn rhoi argymhelliad y CCC ar waith.

Targedau allyriadau interim

18. Dyma'r targedau allyriadau interim statudol presennol:

- Targed i sicrhau gostyngiad o 27% mewn allyriadau, o'i gymharu â'r waelodlin, erbyn 2020;
- Targed i sicrhau gostyngiad o 45% mewn allyriadau, o'i gymharu â'r waelodlin, erbyn 2030;
- Targed i sicrhau gostyngiad o 67% mewn allyriadau, o'i gymharu â'r waelodlin, erbyn 2040.

19. Yn ei Adroddiad Cyngori ym mis Rhagfyr 2000, mae'r CCC yn argymhell y dylid newid targedau 2030 a 2040 i 63% ac 89%, yn y drefn honno. Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith.

Cyllidebau carbon

20. Mae cyllideb garbon yn gosod terfyn ar gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru a ganiateir dros gyfnod cyllidebol o bum mlynedd. Rhaid pennu pob cyllideb garbon ar lefel sy'n gydnaws â chyrraedd y targed allyriadau ar gyfer 2050 a'r targed allyriadau interim ar gyfer unrhyw flwyddyn darged interim yn ystod y cyfnod cyllidebol hwnnw, neu wedyn.

- 21.** Mae Cyllideb Carbon 1 (2016-20), sef y gyllideb bresennol, wedi'i phennu 23% islaw'r waelodlin, ac mae Cyllideb Carbon 2 (2021-2025) 33% islaw'r waelodlin.
- 22.** Yn ôl y CCC, dylid tynhau Cyllideb Carbon 2 a sicrhau gostyngiad o 37% o'i gymharu â lefelau 1990 fel isafswm absoliwt i gyfrif am y penderfyniad i gau gorsaf bŵer Aberddawan. Mae hefyd yn argymhell y dylid sicrhau gostyngiad o 58% ar gyfartaledd, o'i gymharu â lefelau 1990, yng Nghyllideb Carbon 3 (2026-2030).
- 23.** Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn diwygio Cyllideb Carbon 2 ac yn pennu Cyllideb Carbon 3, yn unol ag argymhellion y CCC.

Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru

- 24.** Mae'r Ddeddf yn nodi mai cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer unrhyw gyfnod yw cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru gan ychwanegu unrhyw unedau carbon a gaiff eu didynnu o'r cyfrif, a chan dynnu unrhyw unedau carbon a gaiff eu credydu i'r cyfrif yn ystod y cyfnod.
- 25.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod terfyn ar gyfanswm yr unedau carbon y gellir eu credydu yn ystod unrhyw gyfnod cyllidebol. Caiff hyn ei alw'n derfyn gwrthbwysu.
- 26.** Wrth roi cyngor ynghylch y terfyn gwrthbwysu, mae'r CCC yn dweud:

“As our recommendation is to amend the level of the Second Carbon Budget to a level that will likely need to be outperformed in order to get on track to meeting the Third Carbon Budget and the 2030 target, it is not appropriate to meet the Second Carbon Budget with any use of carbon units. We recommend there is no allowance of carbon units to contribute to meeting this carbon budget.”

- 27.** Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021 yn gosod terfyn gwrthbwysu o 0% o'r gyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebu 2021-2025. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad y CCC.

Ein barn ni

Y broses graffu a'r amserlen

Dyma'r ail set o reoliadau newid yn yr hinsawdd a wnaed o dan Ran 2 o'r Ddeddf y mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad arni. Yn ein hadroddiad ar y set gyntaf o reoliadau ac, yn fwy diweddar, yn ein Hadroddiad Blynyddol ar

Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2019-20, rydym yn argymhell y dylid cyhoeddi unrhyw reoliadau yn y dyfodol ar ffurf drafft a chynnal ymgynghoriad yn eu cylch i hwyluso gwaith craffu yn y Senedd a'r tu allan iddi. Gwrthododd Llywodraeth Cymru hyn ar y sail bod y modd y mae'n gwneud rheoliadau'n bodloni gofynion y Ddeddf. Er nad yw'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad i ymgynghori, nid yw, mewn unrhyw ffordd, yn atal Llywodraeth Cymru rhag gwneud hynny.

O gofio'r uchod, a'r ffaith ein bod wedi codi'r mater hwn droeon, rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio ag ymgynghori ynghylch Rheoliadau 2021.

Yr angen i bennu targedau a chyllidebau carbon mwy uchelgeisiol

Mae Rheoliadau 2021 yn gosod targedau allyriadau mwy uchelgeisiol a chyllidebau carbon tynnach i Gymru, gan roi argymhellion diweddaraf y CCC ar waith. Rydym yn cymeradwyo'r argymhellion hynny ac, felly, yn cefnogi Rheoliadau 2021.

I rai sylwebyddion, mae'n hen bryd gosod targed sero net ar gyfer Cymru. Mae'r targed newydd yn sicrhau bod Cymru yn dilyn cenhedloedd eraill y DU, ac rydym yn croesawu hynny. Mae hyn yn arbennig o amserol wrth i'r DU baratoi i gynnal 'Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP 26) ym mis Tachwedd 2021.

Rydym yn cydnabod bod cynrychiolwyr y sector amgylcheddol o'r farn y gallai Cymru fod yn fwy uchelgeisiol a mynd hyd yn oed ymhellach na'r targedau a bennwyd yn Rheoliadau 2021. Credwn y byddai'n fuddiol ailystyried y targedau maes o law, gan sicrhau'n benodol eu bod yn adlewyrchu effaith pandemig Covid-19 yn llawn.

Gosod targedau mwy uchelgeisiol yw'r rhan hawsaf. Er bod adroddiad diweddaraf y CCC yn cynnwys rhesymau dros fod yn dawel hyderus, mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw Cymru ar y trywydd iawn, ar hyn o bryd, i sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau, heb sôn am sero net, erbyn 2050. Mae hyn yn dangos maint yr her sy'n ein hwynebu.

Mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi cydnabod bod y targedau newydd yn "hynod heriol". Mae hefyd wedi cydnabod yr angen i "ymdrechu'n galetach" yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd a 'chynyddu a chyflymu ymdrechion polisi". Yn awr, rhaid troi'r rethreg yn gamau beiddgar a phendant. Mae'r Ail Gynllun Cyflenwi Carbon Isel (LCDP2) ynghyd â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad gwyrdd ar ôl Covid-19, yn cyflawni hyn.

Yr Ail Cynllun Cyflawni Carbon Isel

Mae'r CCC wedi argymhell y dylai'r LCDP2 gynnig gweledigaeth hirdymor ar gyfer cyrraedd y targed sero net, ac y dylid meintoli effaith arfaethedig polisïau'n glir, gan gynnwys y rhai sydd wrthi'n cael eu cynllunio ac, at ei gilydd, dylent fod yn ddigon i gyflawni amcanion y drydedd gyllideb garbon. Rydym yn cymeradwyo hyn yn llwyr.

Yn ein hadroddiadau blaenorol, gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ymgynghori ynghylch yr LCDP2 drafft. Gwrthodwyd ein hargymhelliad ar y sail mai mater i'r Llywodraeth ar y pryd yw penderfynu ar drefniadau ymgynghori. Rydym yn cydnabod na all Llywodraeth bresennol Cymru roi ymrwymiad ar ran Llywodraeth newydd. Ond, nid yw hyn yn atal Llywodraeth bresennol Cymru rhag ymrwmo mewn egwyddor i gymryd camau penodol yn y dyfodol. Mae nifer o enghreifftiau ohoni'n gwneud hyn, fel y penderfyniad i gyflwyno polisi amaethyddol ar gyfer y dyfodol ac i sefydlu trefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd. Cafwyd addewid y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno yn y Chweched Senedd.

Clywsom gan gynrychiolwyr y sector amgylcheddol a'r CCC y bydd yr LCDP2 yn rhan hanfodol o'r gwaith o sicrhau y bydd targed 2030 yn cael ei gyrraedd. Mae dadl glir o blaid sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i ystyried y Cynllun cyn y caiff ei gwblhau. Er bod gwaith ymgysylltu wedi'i wneud ar ddechrau'r broses o ddatblygu'r Cynllun, a bod y Llywodraeth wedi ymgynghori ynghylch polisïau penodol yn y Cynllun, nid yw hynny'n golygu nad oes angen ymgynghori ynghylch yr LCDP drafft cyn y caiff ei gwblhau.

Rhaid cyhoeddi'r LCDP2 cyn diwedd 2021 i fodloni gofynion y Ddeddf. Rydym yn disgwyl y bydd amser i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr LCDP2 drafft cyn hynny. Bydd hyn hefyd yn gyfle i'r pwyllgor a fydd yn ein holynu drafod yr LCDP2 drafft os yw'n dymuno gwneud hynny.

Nid yw Rhan 2 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i'r Senedd graffu ar Gynlluniau Cyflenwi Carbon Isel drafft. Credwn fod hyn yn wendid mawr. Ar gais y Pwyllgor, cawsom gopi ymlaen llaw o'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf gan Lywodraeth Cymru. Digwyddodd hynny wythnos yn unig cyn cyhoeddi'r Cynllun, felly ychydig iawn o amser a gafwyd i graffu arno a doedd dim amser i awgrymu gwelliannau. Ni ddylid caniatáu i Lywodraeth y dydd benderfynu a gaiff pwyllgorau graffu ar ddogfen mor arwyddocaol. Credwn fod dadl gref dros ddiwygio Rhan 2 o'r Ddeddf a chynnwys darpariaeth i ganiatáu i'r Senedd graffu ar unrhyw Gynlluniau Cyflenwi Carbon Isel yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu ymdrin â hyn ymhellach yn ein Hadroddiad Gwaddol.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod y Senedd yn cymeradwyo Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried y targedau allyriadau maes o law, gan sicrhau'n benodol eu bod yn adlewyrchu effaith pandemig Covid-19 yn llawn.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ymgynghori ynghylch yr Ail Gynllun Cyflenwi Carbon Isel drafft, a hynny er mwyn sicrhau, yn anad dim, bod y Senedd a'i phwyllgorau'n cael cyfle i graffu ar y Cynllun cyn y caiff ei gwblhau.